



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Partneriaeth  
Cydwasanaethau  
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol  
Shared Services  
Partnership  
Specialist Estates Services

# Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 20/23

## 4 Rhagfyr 2020

### I'w weithredu gan y canlynol:

Cyfarwyddwyr Ystadau/Cyfleusterau

### Er gwybodaeth yn unig:

Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Copi i'r canlynol: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Annwyl Gydweithiwr,

## COVID 19 a lliniaru trosglwyddiad drwy'r awyr mewn lleoliadau gofal iechyd

Mae Grŵp Trosglwyddiadau Nosocmiaidd Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) PCGC i holi am unrhyw waith (safonau, rheoliadau, argymhellion ac ati) sy'n bodoli neu wedi'i gynllunio ar awyru mewn ardaloedd ysbyty cyffredinol yng Nghymru.

Mae hyn yn rhannol oherwydd cyhoeddi adroddiad y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB) ar drosglwyddiadau nosocmiaidd yn NHS England (gyda'r argymhelliad diogelwch ar awyru R/2020/099), ac yn rhannol oherwydd dealltwriaeth gynyddol bod y mesurau a gymerwyd i leihau trosglwyddiad nosocmiaidd, fel rhanwyr gwelyau Perspex, yn cael effaith ar gylchrediad aer.

Mae gwybodaeth am sut mae'r gwahanol ddulliau trosglwyddo o COVID-19 yn digwydd yn parhau i dyfu ac mae'r ddealltwriaeth gyfredol yn awgrymu mai'r tri dull trosglwyddo allweddol yw: defnynnau trwy bobl sy'n agos iawn at ei gilydd; cyswllt trwy arwynebau; ac aerosol trwy ronynnau yn yr awyr.

Mae tystiolaeth o ran trosglwyddo COVID-19 yn yr awyr wedi dod i'r amlwg yn araf wrth i'r pandemig ledaenu ac wrth i ddealltwriaeth wyddonol o'r feirws ddatblygu. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi bod yn diweddarau ei ganllawiau ers mis Mawrth 2020 mewn perthynas â COVID-19, ac roedd yn cydnabod i ddechrau bod posibilrwydd o drosglwyddo yn yr awyr mewn amgylchiadau penodol iawn, a oedd yn cynnwys gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGPs). Ym mis Gorffennaf 2020, diweddarodd Sefydliad Iechyd y Byd ei ganllawiau pan ystyriodd a ellir lleadaenu'r feirws trwy drosglwyddiad yn yr awyr nad yw'n gysylltiedig ag AGPs, ac mae'r ymchwil hon yn parhau.

Yn ogystal, mae llywodraeth y DU (NHSI ac NHS England), ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, wedi bod yn darparu diweddariadau a chanllawiau rheolaidd mewn perthynas ag awyru mewn lleoliadau gofal iechyd ers dechrau'r pandemig.

Nod y canllawiau atodol hyn yw hysbysu sefydliadau'r GIG yng Nghymru o'r gyfres o ganllawiau ystadau a chyfleusterau a ryddhawyd hyd yma i'w hystyried ar gyfer awyru mewn ardaloedd lle gallai cleifion Covid-19 fod yn bresennol.

Maent yn cynnwys canllawiau defnyddiol a bwriedir iddynt gael eu defnyddio ar unwaith gan Ystadau Gofal Iechyd a gweithwyr clinigol proffesiynol.

Gall deall a chymhwyso'r canllawiau hyn mewn lleoliadau gofal iechyd presennol fod yn heriol ac os bydd angen unrhyw gefnogaeth arnoch, cysylltwch â Dylan Evans, Uwch Beiriannydd Safonau Perfformiad ar 07971524854  
Dylan.Evans3@wales.nhs.uk neu Simon Russell, Pennaeth Peirianeg, ar 029 2090 4100 Simon.Russell@wales.nhs.uk

Yr eiddoch yn gywir,



**NH Davies BSc (Anrh), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIQB, FIHEEM**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC, Trydydd Llawr, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UB**

## **Atodiad 1: Canllawiau Awyru**

Mae'r canllawiau presennol ar gyfer awyru mewn ysbytai yn cael eu cwmpasu yn bennaf gan HTM 03-01 Awyru arbenigol ar gyfer adeiladau gofal iechyd a gyhoeddwyd yn 2007. Crëwyd fersiwn wedi'i diweddarau yn gynharach eleni ac mae'n mynd trwy wiriadau terfynol gydag NHSI. Mae disgwyl iddi gael ei chyhoeddi cyn bo hir. Er nad yw'r ddogfen wedi'i diweddarau yn cynnwys unrhyw gyfeiriad penodol at COVID-19, mae'r canllawiau arbenigol a gwmpesir yn y ddogfen ar gyfer meysydd fel theatrau, ystafelloedd endosgopi ac ynysu ac ati yn gofyn am gyfraddau awyru sy'n fwy na'r rhai sy'n ofynnol i ddelio â COVID-19 yn unig. Fodd bynnag, nid yw HTM 03-01 yn ymdrin ag ardaloedd cyffredinol fel ystafelloedd aros a choridorau.

Fel y nodwyd yn argymhelliad Diogelwch HSIB R/2020/099 mae ystyriaethau ynghylch cynllunio a defnyddio systemau awyru ysbytai yn ffactor sy'n dod i'r amlwg wrth liniaru'r risg o drosglwyddo COVID-19. Ers dechrau'r pandemig mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC wedi bod yn rhan o weithgorau oes fer ledled y DU gydag NHSI a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill sy'n creu canllawiau ychwanegol ar gyfer awyru mewn lleoliadau gofal iechyd a'r materion sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Y prif ddogfennau i'w hystyried o ran awyru mewn ardaloedd lle gallai cleifion Covid-19 fod yn bresennol yw:

1. [\*\*HTM 03-01 – Specialist ventilation for healthcare premises\*\*](#)  
Mae'n darparu canllawiau ar awyru arbenigol mewn adeiladau gofal iechyd megis theatrau, ystafelloedd endosgopi ac ynysu ac ati.
2. [\*\*COVID-19: Guidance for remobilisation of services within health and care settings\*\*](#)  
Dogfen a gymeradwywyd ledled y DU o ran adfer (ailgychwyn) gwasanaethau sy'n gofyn am ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig parhaus ac wrth i COVID-19 ddod yn endemig. Nid yw'r ddogfen hon yn darparu unrhyw wybodaeth am awyru mewn ardaloedd â chleifion COVID-19, ond mae'n cynnwys dolenni defnyddiol i ganllawiau awyru WHO.
3. [\*\*WHO Infection prevention and control during health care when coronavirus disease \(COVID-19\) is suspected or confirmed\*\*](#)  
Mae canllawiau dros dro a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd gydag Adran 5 y ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn ar gyfraddau awyru a argymhellir ar gyfer ardaloedd â chleifion COVID-19.
4. [\*\*WHO Ensuring a safe environment for patients and staff in COVID-19 health-care facilities\*\*](#)  
Mae'r ddogfen/offeryn asesu hwn yn darparu canllawiau pellach ar ofynion awyru ar gyfer ardaloedd penodol o'r ysbyty.
5. [\*\*NHS England & NHSI healthcare ventilation FAQ\*\*](#)  
Mae'r ddogfen a gynhyrchwyd gan weithgor oes fer ledled y DU (SLWG) yn ateb cwestiynau awyru cysylltiedig â COVID-19 a dderbynnir yn aml gan fyrdau iechyd ledled y DU.
6. [\*\*WG Standard Operating Procedure for Dental Management of Non-COVID 19 Patients in Wales \(refers to Scottish SBAR re ventilation in dental practices\)\*\*](#)  
Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau defnyddiol ar awyru ystafelloedd triniaeth ddeintyddol. Mae hefyd yn darparu canllawiau ar yr "amseroedd anweithredol" lleiaf sy'n ofynnol rhwng triniaethau cleifion fel swyddogaeth cyfradd awyru'r ystafell.

7. **Novel coronavirus (COVID-19) standard operating procedure: Room Ventilation Guidance for Single Rooms (not operating theatres or dentistry)**

Mae'r ddogfen a gynhyrchwyd gan weithgor oes fer ledled y DU (SLWG) yn darparu canllawiau defnyddiol ar awyru ystafelloedd sengl (ar wahân i theatrau a deintyddiaeth) lle mae AGPs yn cael eu cyflawni ar gleifion yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Mae hefyd yn darparu canllawiau defnyddiol ar yr "amseroedd anweithredol" lleiaf sy'n ofynnol rhwng triniaethau cleifion fel swyddogaeth cyfradd awyru'r ystafell.

8. **[CIBSE COVID-19 ventilation guidance](#)**

Mae'n darparu canllawiau cyffredinol ar weithredu systemau awyru adeiladau nad ydynt yn rhai gofal iechyd, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19 drwy'r awyr i'r bobl yn yr adeiladau.

9. **[EIGA Fire Hazards of Oxygen and Oxygen-Enriched Atmospheres, Doc 04/18.](#)**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn esbonio'r risgiau tân sy'n gysylltiedig ag atmosfferau wedi'u cyfoethogi ag ocsigen a'r mesurau y gellir eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau.

Sylwch fod canllawiau Llywodraeth y DU a Sefydliad Iechyd y Byd yn ddogfennau byw ac maent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol  
Shared Services  
Partnership  
Specialist Estates Services

# Specialist Estates Services Notification 20/23

**4 December 2020**

**For action by:**

Directors of Estates/Facilities

**For information only:**

Chief Executives, NHS Health Boards and Trusts

Copy to: Department of Health and Social Care, Welsh Government

Dear Colleague

## **COVID 19 and mitigating airborne transmission in healthcare settings**

The Welsh Government's Nosocomial Transmission Group has contacted NWSSP-Specialist Estates Services (SES) to enquire about any work (standards, regulations, recommendations etc.) in existence or planned on ventilation in general hospital areas in Wales.

This is partly because of the publication of the Healthcare Safety Investigation Branch (HSIB) report on nosocomial transmission in NHS England (with the safety recommendation on ventilation R/2020/099), and partly because of growing understanding that the measures taken to reduce nosocomial transmission, such as Perspex bed dividers, have an effect upon air circulation.

Knowledge of how the various modes of transmission of COVID-19 occurs continues to grow with current understanding suggesting the three key modes of transmission are: droplets via people within close proximity; contact via surfaces; and aerosol via airborne particles.

Evidence with regard to the airborne transmission of COVID-19 has slowly emerged as the pandemic progressed and scientific understanding of the virus has developed. The World Health Organisation (WHO) has been updating its guidance since March 2020 in respect of COVID-19, and acknowledged initially there was the possibility of airborne transmission in very specific circumstances, which included aerosol generating procedures (AGPs). In July 2020 WHO updated its guidance when it considered whether the virus may be spread through airborne transmission not associated with AGPs, with this research still ongoing.

In addition, the UK government (NHSI and NHS England), in conjunction with the devolved administrations have been providing regular updates and guidance with regard to ventilation in healthcare settings since the start of the pandemic.

This attached guidance is to inform NHS organisations in Wales of the suite of estates and facilities guidance documents released to date to be considered for ventilation in areas where Covid-19 patients may be present.

It contains useful guidance and is intended for immediate use by Healthcare Estates and Clinical professionals.

Understanding and applying this guidance within existing healthcare settings can be challenging and should you require any support please contact Dylan Evans, Senior Performance Standards Engineer on 07971524854 [Dylan.Evans3@wales.nhs.uk](mailto:Dylan.Evans3@wales.nhs.uk) or Simon Russell, Head of Engineering on 029 2090 4100 [Simon.Russell@wales.nhs.uk](mailto:Simon.Russell@wales.nhs.uk).

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "NH Davies". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**NH Davies BSc (Hons), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIQB, FIHEEM**

**Director Specialist Estates Services**

**NWSSP Specialist Estates Services, 3rd Floor, Companies House, Crown Way, Cardiff CF14 3UB**

## **Annex 1: Ventilation Guidance**

Existing guidance for ventilation in hospitals is predominately covered by HTM 03-01 Specialist ventilation for healthcare premises published in 2007. An updated version was produced earlier this year and is just going through final checks with NHSI and should be published shortly. Although the updated document does not include any specific reference to COVID-19 the specialist guidance covered in the document for areas such as theatres, endoscopy and isolation rooms etc. requires ventilation rates in excess of those required purely to deal with COVID-19. However, HTM 03-01 does not cover general areas such as waiting rooms and corridors.

As stated in HSIB Safety recommendation R/2020/099 considerations about the design and use of hospital ventilation systems are an emerging factor in mitigating the risk of COVID-19 transmission. Since the start of the pandemic NWSSP-SES has been part of UK wide short life working groups with NHSI and the other devolved administrations producing additional guidance for ventilation in healthcare settings and the issues associated with Covid-19.

The main documents to consider with regard to ventilation in areas where Covid-19 patients may be present are:

1. **[HTM 03-01 Specialist ventilation for healthcare premises](#)**  
Provides guidance on specialist ventilation in healthcare premises such as theatres, endoscopy and isolation rooms etc.
2. **[COVID-19: Guidance for remobilisation of services within health and care settings](#)**  
UK endorsed document with regard remobilisation (restarting) of services requiring new ways of working during the continued pandemic and, as COVID-19 becomes endemic. This document does not provide any information on ventilation to COVID-19 patient areas but it does include useful links to WHO ventilation guidance.
3. **[WHO Infection prevention and control during health care when coronavirus disease \(COVID-19\) is suspected or confirmed](#)**  
Interim guidance issued by WHO with Section 5 of this document provides very useful information on recommended ventilation rates to COVID-19 patient areas.
4. **[WHO Ensuring a safe environment for patients and staff in COVID-19 health-care facilities](#)**  
This document/assessment tool provides further guidance on ventilation requirements to specific areas of the hospital.
5. **[NHS England & NHSI healthcare ventilation FAQ](#)**  
The document produced by a UK wide short life working group (SLWG) answers frequently asked COVID-19 related ventilation questions received from health boards throughout the UK.
6. **[WG Standard Operating Procedure for Dental Management of Non-COVID 19 Patients in Wales \(refers to Scottish SBAR re ventilation in dental practices\)](#)**  
The document provides useful guidance on ventilation to dental treatment rooms. It also provides guidance on the minimum “fallow times” required between patient treatments as a function of the room ventilation rate.

7. **Novel coronavirus (COVID-19) standard operating procedure: Room Ventilation Guidance for Single Rooms (not operating theatres or dentistry)**

The document produced by a UK wide short life working group (SLWG) provides useful guidance on ventilation to single rooms (other than theatres and dentistry) where AGPs are performed on confirmed or suspected COVID-19 patients. It also provides useful guidance on the minimum “fallow times” required between patient treatments as a function of the room ventilation rate.

8. **[CIBSE COVID-19 ventilation guidance](#)**

Provides general guidance on operating ventilation systems to **non- healthcare** buildings, to reduce the risk of COVID-19 airborne infection to building occupants.

9. **[EIGA Fire Hazards of Oxygen and Oxygen-Enriched Atmospheres, Doc 04/18.](#)**

This publication explains the fire risks associated with oxygen-enriched atmospheres and the measures that can be taken to mitigate the risks.

Note the UK Government and WHO guidance documents are live documents and are updated on a regular basis.